

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Practis Deintyddol Dannadd  
Davies, Caernarfon / Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 14

Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 15 Chwefror  
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	What we did .....	5
2.	Summary of our inspection .....	6
3.	What we found .....	7
	Quality of patient experience .....	8
	Delivery of safe and effective care .....	13
	Quality of management and leadership .....	18
4.	What next? .....	20
5.	How we inspect dental practices .....	21
	Appendix A – Summary of concerns resolved during the inspection .....	22
	Appendix B – Immediate improvement plan .....	23
	Appendix C – Improvement plan .....	24

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Dannadd Davies yn 33 Stryd Bangor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AR, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 14 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiedig) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Dannadd Davies yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd digon o gyfleusterau ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Mae systemau ar waith ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth mewn perthynas â gofynion y rheoliadau

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth
- Cofnodi nodiadau cleifion

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Practis Deintyddol Dannadd Davies yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caernarfon. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, tair nyrs ddeintyddol, derbynnydd, a rheolwr practis wedi'i neilltuo i'r swydd.

Mae'r practis yn darparu ystod o NHS and private wasanaethau deintyddol cyffredinol i gleifion preifat a chleifion y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Dannadd Davies yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 21 o holiaduron wedi'u cwblhau, ac roedd pob un ohonynt gan gleifion hirdymor yn y practis (y rheini a oedd wedi bod yn gleifion am dros ddwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Mae staff bob amser yn groesawgar ac yn barod i helpu. Gwasanaeth arbennig ac maen nhw bob amser i'w gweld yn gweithio mor galed."*

*"Dwi bob amser wedi derbyn gofal a gwasanaeth ardderchog yn y practis hwn am y sawl blwyddyn dwi wedi bod yn ddigon ffodus i fod yn glaf."*

*"Dwi wedi bod yn defnyddio'r practis ers cryn dipyn o amser. Mwy na hapus gyda lefelau hylendid a'r gwasanaeth a ddarperir yma. Yn dda iawn yn gyffredinol."*

## Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw bosteri a dalenni gwybodaeth yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i



gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd arwyddion “dim ysmegu” yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros / y dderbynfa ac yn yr ystafelloedd triniaeth.

Nododd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad ag ef ynghylch sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach.

## **Gofal ag urddas**

Heb eithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Roedd sylwadau cleifion ynglŷn â'r staff yn cynnwys:

*“Mae staff bob amser yn ddymunol, yn gydymdeimladol ac yn broffesiynol”*

*“Mae staff bob amser yn gyfeillgar”*

Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau i gleifion gynnal sgysiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) yn cael eu cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

## **Gwybodaeth i gleifion**

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu gofal deintyddol, i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth oedd ar gael iddynt.

Roedd yr ymatebion a roddwyd gan gleifion yn yr holiadur yn nodi y gallai'r practis deintyddol ddarparu gwybodaeth gliriach i gleifion am gost y driniaeth. Dywedodd mwy na chwarter y cleifion wrthym yn yr holiaduron eu bod yn teimlo nad oedd cost eu triniaeth bob amser yn cael ei gwneud yn glir iddynt, ac nad oeddent yn deall sut yr oedd cost eu triniaeth yn cael ei phennu. Yn ogystal, gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir, a dywedodd dau o'r cleifion:

*“Trwy nodi cost debygol y driniaeth cyn dechrau arni”*

*“Bod yn gliriach ynghylch costau”*

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod yr wybodaeth am gostau ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat ar gael i'w gweld yn yr ardal aros / y dderbynfa, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am gost debygol eu triniaeth.

Canfuom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu nodi o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis yn cael ei harddangos o gwmpas y dderbynfa a'r man aros. Roedd gan y practis ei lyfryn gwybodaeth ei hun i gleifion fynd adref gyda nhw.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Gall rhai aelodau o staff sy'n gweithio yn y practis gyfathrebu'n ddwyieithog â chleifion.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Dywedodd yr holl gleifion a oedd yn siarad Cymraeg wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â staff trwy gyfrwng y Gymraeg pe byddent yn dymuno.

Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg a gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn eu hiaith o ddewis bob amser.

### **Gofal amserol**

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau ar gael pe byddai angen triniaeth frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei

arddangos wrth y brif fynedfa ac yn cael ei ddarparu yn y neges peiriant ateb, ar gardiau apwyntiadau ac yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen i un deintydd wella ac ehangu ar y cyngor a'r opsiynau a roddir i gleifion.

Canfuom nad oedd cydsyniad i driniaeth ar lafar bob amser yn cael ei gofnodi o fewn cofnodion cleifion. Gwnaethom gyngori y dylai'r practis sicrhau bod cydsyniad ar lafar yn cael ei gofnodi ar bob adeg, a chytunodd y practis i wneud hyn.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintyddion yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, dywedodd un claf wrthym nad oedd hyn yn digwydd bob amser.

Gwnaethom nodi bod hanes meddygol cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau ar ôl pob ymweliad.

### **Hawliau pobl**

Gwnaethom sylwi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis. Lleolir y gwasanaeth mewn adeilad tri llawr, gyda dwy ystafell driniaeth ddeintyddol wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod ac un ystafell driniaeth ddeintyddol ar y llawr cyntaf. Roedd defnyddwyr cadair olwyn yn gallu cael mynediad at lawr gwaelod y practis, ac roeddent yn gallu cael mynediad at y fynedfa, yr ardal aros a'r ddwy ystafell driniaeth ddeintyddol.

### **Gwranddo a dysgu o adborth**

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Dywedodd un claf wrthym fod y practis deintyddol wedi bod yn "garedig pan oedd problemau yn codi".

Gwnaethom adolygu polisi rheoli cwynion y practis ac, ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol ers iddo newid dwylo yn 2012.

Mae polisi rheoli cwynion y practis yn amlinellu triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat. Gwnaethom gyngori y dylai'r practis adolygu'r polisi, gan sicrhau bod

amserlenni'n glir i gleifion o ran cydnabod ac ymateb i gwynion, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer cleifion preifat ac â 'Gweithio i Wella'<sup>1</sup> ar gyfer cleifion y GIG, a gweithredwyd hyn gan y practis ar unwaith yn ystod ein hymweliad.

Roedd y weithdrefn ar gyfer cwyno wedi'i harddangos yn glir yn y man aros; roedd hefyd wedi'i hamlinellu yn y daflen 'Gwybodaeth i Gleifion'.

Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu cofnodi mewn log canolog er mwyn sicrhau bod unrhyw themâu cyffredin yn cael eu hadnabod.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y gofynnid iddynt am eu safbwyntiau am y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis ar gyfer casglu adborth gan y cleifion. Mae'r practis yn gwneud hyn trwy ddarparu holiaduron dwyieithog i gleifion yn yr ystafell aros, ynghyd â blwch sylwadau. Dywedodd y practis wrthym fod adborth yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm, a gwelsom fod manylion o'r dadansoddi adborth yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd y practis yn y man aros, gan ddangos i gleifion bod eu hadborth unigol wedi'i gasglu a'i weithredu er mwyn gwella dysgu a'r gwasanaeth.

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella>

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Canfuwyd gennym fod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o'r adeilad, gwelsom fod yr holl ardaloedd yn lân ac yn daclus iawn, ac yn rhydd o beryglon amlwg.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd bron pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un toiled deuryw ar gyfer defnydd cleifion ac aelodau o staff. Roedd arwydd ar y cyfleuster ac roedd yn amlwg yn lân iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y dyfeisiau hyn yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o ddalenni data yn ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir a'i fod yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu.

### **Atal a rheoli heintiau**

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Mae'r ardal ddadheintio wedi'i lleoli mewn ystafell driniaeth fawr, ond i ffwrdd o'r ardal driniaeth ei hun. Gwelsom fod y cyfleuster yn lân iawn, yn drefnus, wedi'i gyfarparu ac yn daclus. Dangosodd staff y broses ddadheintio inni a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar ddadheintio. Yn ogystal, dywedodd y practis wrthym fod cynlluniau wedi'u gwneud i wahanu'r ardal ddadheintio wrth y ystafell driniaeth er mwyn ffurfio dwy ystafell a chael drws i bob ystafell.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis yn cwblhau archwiliadau rheoli heintiau yn rheolaidd fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod y risg o groes-heintio mor isel ag y bo modd er mwyn diogelu cleifion a staff. Gwnaethom hefyd nodi bod yr offer deintyddol wedi'u storio yn unol â pholisi dadheintio cyfredol y practis, a'u bod yn cael eu cludo'n ddiogel rhwng ystafelloedd triniaeth.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd gan y practis weithdrefnau clir ar waith i ddangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion.

Roedd yr holl aelodau o staff yn gyfredol o ran eu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd, ac roedd gan y practis weithiwr cymorth cyntaf penodedig.

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu storio'n ddiogel, ac mewn lleoliad hygyrch iawn pe bai argyfwng meddygol i glaf (cwmp) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r

cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl aelodau o staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant o ran diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, dywedodd y practis wrthym fod angen i holl aelodau o staff ddiweddarau eu hyfforddiant, a gwelsom dystiolaeth fod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2017.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dywedodd y practis wrthym fod angen diweddarau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl aelodau o staff clinigol. Mae'n rhaid i ddeintyddion fod wedi cael gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ystod y tair blynedd diwethaf dim ond os ydynt wedi'u cofrestru ag AGIC. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau eisoes ar waith i ddiweddarau'r rhain ar gyfer yr holl aelodau o staff, a chaiff hyn ei ystyried yn arfer da.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Anfon manylion ymlaen at AGIC ynghylch tystysgrifau diweddaredig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintyddion.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Nodwyd gennym fod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i gynorthwyo'r tîm i weithio'n effeithlon a'u bod i'w gweld yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhai marciau ar y llawr yn ystafell driniaeth rhif dau. Dywedodd y practis wrthym nad yw ystafell driniaeth rhif dau yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd, ac y byddid yn cael gwared â'r marciau ar y llawr cyn i'r cleifion ddefnyddio'r ystafell.

Roedd yr holl offer radiolegol yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer

radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau a/neu eu trefnu gan y practis.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

O drafodaethau â'r staff, canfuom y cynhaliwyd adolygiad gan gymheiriaid rhwng aelodau o staff clinigol yn ddiweddar, a bydd hyn yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion. Canfuom hefyd fod y practis wedi cwblhau adolygiad gan gymheiriaid gyda phractis deintyddol arall yn ddiweddar, a fydd yn cyfrannu ymhellach at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir.

Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Mae hwn yn ddull o hunanwerthuso sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut maen nhw'n gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

#### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadurol yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### **Cadw cofnodion**



Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth fod y practis yn gyffredinol yn cadw cofnodion clinigol da, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, canfuom fod rhai anghysondebau gan y deintyddion o ran lefel y manylion a gofnodwyd o fewn cofnodion unigol y cleifion, fel:

- Hanes cymdeithasol, sgrinio am ganser, a chofnodi cydsyniad cleifion ar lafar i driniaeth
- Y cyngor a'r opsiynau a roddwyd i gleifion ar gynllunio ac opsiynau triniaeth
- Cofnodi rhif y swp a dyddiad dod i ben yr anesthetig lleol

Gwnaethom hefyd drafod â'r practis y diffyg tystiolaeth o ran y pelydrau-X rheolaidd sy'n cael eu cymryd yn seiliedig ar ffactorau risg.

O ystyried yr anghysondebau a welsom yng nghofnodion y cleifion, byddai'n fuddiol petai'r practis yn cynllunio templed cyffredinol ar gyfer cadw cofnodion cleifion fel bod yr ansawdd yn gyson, a chwblhau archwiliadau rheolaidd o gofnodion cleifion fel rhan o'i broses adolygu gan gymheiriaid.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Cynllunio templed cyffredinol ar gyfer cadw cofnodion cleifion fel bod yr ansawdd yn gyson, a chwblhau archwiliadau rheolaidd fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth hwn yn un a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion.

Roedd amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn y practis.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn effeithiol ac yn gymwys yn ei rôl. Oherwydd bod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd am beth amser, roedd cyfathrebu da rhyngddynt. Dywedasant wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisiâu a gweithdrefnau.

Gwelsom hefyd fod gan yr holl staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant a bod hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Roedd y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestriad AGIC yn cael eu harddangos yn glir, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneidd hepatitis B yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad adolygu a/neu roedd fersiynau'n cael eu rheoli, ac roedd staff yn eu llofnodi er mwyn dangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor ar fynedfa'r adeilad. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

## 4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion</b>	<b>Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder</b>	<b>Sut cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Dannadd Davies

**Dyddiad yr arolygiad:** 14 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Practis Deintyddol Dannadd Davies**

**Dyddiad yr arolygiad: 14 Tachwedd 2017**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Ddim yn berthnasol				
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Anfon manylion ymlaen at AGIC ynghylch tystysgrifau diweddaredig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintyddion.	2.7 Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl	Mae tystysgrifau diweddaredig yn cael eu prosesu ar hyn o bryd, ac rydym yn aros am y tystysgrifau hyn gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	Liz Jones	31 Ionawr 2018
Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.	3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi	Mae trefniadau ar gyfer hyfforddiant wedi'u gwneud trwy Ddeoniaeth Caerdydd a byddwn yn dechrau defnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth o'r dyddiad	Pob aelod o staff a phob deintydd	19 Ionawr 2018



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		hwynnw ymlaen.		
Datblygu safonau unffurf a chyson ledled y practis ar gyfer cadw cofnodion cleifion, a chyflwyno system o adolygiadau/archwiliadau gan gymheiriaid i gynorthwyo wrth greu a chynnal hyn.	3.5 Cadw cofnodion	Rydym wedi archwilio ein prosesau cyfredol ar gyfer cadw cofnodion clinigol a byddwn yn ail-archwilio mewn dau fis i sicrhau bod pob deintydd yn defnyddio safonau unffurf a chyson. Bydd y practis yn cyfeirio at lyfr coginio CAPRO Deoniaeth Caerdydd ar gyfer archwiliadau ac adolygiadau cymheiriaid yn y dyfodol.	Pob deintydd	31 Ionawr 2018
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Ddim yn berthnasol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Dr Rhys Davies**

**Swydd: Deintydd**

**Dyddiad: 19 Rhagfyr 2017**